OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 131 (Cy. 24)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU A LLOEGR

## Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) a Rheolau Cofrestru Tir (Diwygiadau Amrywiol) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *10 Chwefror 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *12 Chwefror 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *6 Ebrill 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 50, 52, 53(3), 61, 196(2) a 198(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) a Rheolau Cofrestru Tir (Diwygiadau Amrywiol) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2020.

**Diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015**

**2.** Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(a) yn rheoliad 7 (uchafswm ffi wythnosol am ofal a chymorth amhreswyl), ym mharagraff (1) yn lle "£90" rhodder "£100";

(b) yn rheoliad 13 (isafswm incwm ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal) yn lle "£29.50" rhodder "£32";

(c) yn rheoliad 22 (uchafswm cyfraniad neu ad-daliad wythnosol am ofal a chymorth amhreswyl) yn lle "£90" rhodder "£100";

(d) yn rheoliad 28 (isafswm incwm ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal) yn lle "£29.50" rhodder "£32".

(**1**) 2014 dccc 4.
(**2**) O.S. 2015/1843 (Cy. 271); fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2017/214 (Cy. 58), O.S. 2018/123 (Cy. 29) ac O.S. 2019/234 (Cy. 53).

**Diwygio Rheolau Cofrestru Tir 2003**

**3.** Mae Rheolau Cofrestru Tir 2003(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(a) yn Rhan 8, rheol 93(x) (personau yr ystyrir bod ganddynt fuddiant digonol i wneud cais am gyfyngiad) yn lle "under the terms of a deferred payment agreement within the meaning of section 68(2)" rhodder "section 71";

(b) yn Atodlen 4 (ffurfiau safonol ar gyfyngiad) yn y cofnod sy'n ymwneud â Ffurf MM—

(i) ym mharagraff (2) yn lle "under the terms of a deferred payment within the meaning of section 68(2)" rhodder "section 71(1) or (5)";

(ii) yn y pennawd yn lle "under the terms of a deferred payment agreement within the meaning of section 68(2)" rhodder "section 71";

(iii) yn y geiriau o flaen paragraff (1) yn lle "under the terms of a deferred payment agreement within the meaning of section 68(2)" rhodder "section 71".

*Julie Morgan*
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

10 Chwefror 2020

(**3**) O.S. 2003/1417; fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2008/1919 ac O.S. 2016/211 (Cy. 84). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015") a Rheolau Cofrestru Tir 2003 ("y Rheolau").

Mae Rheoliadau 2015 yn nodi'r gofynion y mae rhaid i awdurdodau lleol eu bodloni wrth ddyfarnu swm y ffioedd sy'n gymwys mewn perthynas â gofal a chymorth, y maent yn eu darparu neu'n eu trefnu neu'n cynnig eu darparu neu eu trefnu wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan Ran 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf"). Mae Rheoliadau 2015 hefyd yn cynnwys darpariaethau cyfochrog sy'n nodi'r gofynion sy'n gymwys pan fo awdurdod lleol yn gwneud taliadau uniongyrchol i ddiwallu angen person am ofal a chymorth.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan 2 o Reoliadau 2015 (codi ffioedd o dan Ran 5 o'r Ddeddf) fel a ganlyn:

- cynnydd yn yr uchafswm ffi wythnosol am ofal a chymorth amhreswyl o £90 i £100.
- cynnydd yn yr isafswm incwm wythnosol ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal o £29.50 i £32.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan 4 o Reoliadau 2015 (cyfraniadau ac ad-daliadau am daliadau uniongyrchol) fel a ganlyn:

- cynnydd yn yr uchafswm cyfraniad neu ad-daliad wythnosol am ofal a chymorth amhreswyl o £90 i £100.
- cynnydd yn yr isafswm incwm wythnosol net ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal ac sy'n derbyn taliadau uniongyrchol o dan y Ddeddf o £29.50 i £32.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheolau i gywiro gwall a wnaed yn Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2016, ac yn mewnosod darpariaeth gywir y Ddeddf yn Rhan 8 ac Atodlen 4 i'r Rheolau. Mae Rhan 8 ac Atodlen 4 yn ymdrin â chyfyngiadau o fewn ystyr adran 40 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.